**Teitl: Crefydd a Bwyd**

<table>
<tr><td>Teitlau</td><td>Feganiaeth a Llysieuaeth</td><td>Rheolau bwyd Iddewiaeth ac Islam</td><td>Bwyd a Dathliadau</td></tr>
<tr><td>Rhesymeg</td><td colspan="3">YMWADIAD: Mae'r Nodiadau i Athrawon wedi'u diweddaru er mwyn gallu defnyddio'r adnodd drwy Gwricwlwm i Gymru. Wedi dweud hynny, mae cynnwys yr erthyglau wedi'i archifo ac nid yw'r wybodaeth wedi'i diweddaru. Mae'r erthyglau yn cael eu cadw ar y wefan gan fod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i Gwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br><br>Pedwar diben 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes'<br>Drwy ddysgu am berthynas bwyd a chrefydd fel rhan o'u gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn:<br>• Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;<br>• Unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd cadarn ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol;<br>• Cyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n rhoi o'u hegni a'u sgiliau er budd pobl eraill;<br>• Dinasyddion moesol, dysgedig a fydd yn ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.<br><br>Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i:<br><br>• Ymgysylltu â chwestiynau athronyddol a thyngedfennol, a'u harchwilio<br>• Ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau o ddoethineb ac athroniaethau<br>• Datblygu a mynegi eu safbwyntiau dysgedig eu hunain<br>• Defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am safbwyntiau byd-eang crefyddol a heb fod yn grefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain<br>• Archwilio'r ffyrdd mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol a heb fod yn grefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes<br>• Gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a heb fod yn grefyddol a defnyddio tystiolaeth ohonynt i ymgysylltu â materion moesegol a moesol<br>• Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt<br>• Datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau moesol a'u hysbrydolrwydd<br>• Trafod eu persbectifau eu hunain a phersbectifau eraill, a myfyrio arnynt</td></tr>
</table>

| Teitlau | Feganiaeth a Llysieuaeth | Rheolau bwyd Iddewiaeth ac Islam | Bwyd a Dathliadau |
|---|---|---|---|
| | **Y lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o gysyniadau yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r **is-lensys isod:**<br>• Chwilio am ystyr a diben;<br>• Y byd naturiol a phethau byw;<br>• Hunaniaeth a pherthyn;<br>• Awdurdod a dylanwad;<br>• Perthnasoedd a chyfrifoldeb;<br>• Gwerthoedd a moeseg;<br>• Taith bywyd;<br><br>*Noder bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu pennu'n lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i ysgolion ei ystyried. Mae pob maes llafur sydd wedi'i gytuno wedi ystyried fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cyfeirir atynt uchod ac isod.<br><br>**Dolenni Defnyddiol:**<br><br>**Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance**<br>**Canllawiau Dyniaethau Hwb - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities**<br>**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters/**<br>**Themâu Trawsgwricwlaidd - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#cross-cutting-themes** | | |

| Teitlau | Feganiaeth a Llysieuaeth | Rheolau bwyd Iddewiaeth ac Islam | Bwyd a Dathliadau |
|---|---|---|---|
| **Geirfa allweddol** | Eiriolwr - Sefyll drosrywbeth yr ydych yn ei gredu.<br><br>Ahimsa- Di-drais.<br><br>Bioamrywiaeth - Yr amrywiaeth o fywyd ar y Ddaear ar ei holl lefelau, o enynnau hyd at ecosystemau<br><br>Trugaredd - Adnabod dioddefaint eraill ac yn gweithredu i helpu.<br><br>Cadwraeth - Atal defnydd gwastraffus o adnodd.<br><br>Euogfarn - Cred neu farn gadarn.<br><br>Empathi - Y gallu i synhwyro emosiynau pobl eraill ynghyd â'r gallu i ddychmygu beth y gallai rhywun arall fod yn ei feddwl neu ei deimlo.<br><br>Amgylcheddol - Yn cyfeirio at y byd naturiol ac effaith gweithgarwch dynol ar ei chyflwr.<br><br>Moesegol - Person neu agwedd sy'n cael ei gweld yn gywir yn y synnwyr moesol.<br><br>Cyfannol – Yn cyfeirio at neu'n ymwneud â chyfanion neu systemau cyflawn yn hytrach na rhannau unigol.<br><br>Cyd-gysylltiad - Y ffaith neu'r cyflwr o fod yn gysylltiedig â'i gilydd | Kashrut – Term am reolau bwyd yr Iddewon.<br><br>Mitzvot – y gorchmynion sydd yn cael eu dilyn gan Iddewon.<br><br>Torah – pum llyfr cyfraith yr Iddewon.<br><br>Kosher – bwyd sy'n dderbyniol i Iddewon.<br><br>Trefah – bwyd sydd yn annerbyniol gan Iddewon.<br><br>Parev – bwyd niwtral yn ôl rheolau bwyd yr Iddewon.<br><br>Shechitah – y dull Iddewig o ladd anifail ar gyfer ei fwyta.<br><br>Shochet – y person sy'n gymwys i ladd anifail er mwyn iddo fod yn kosher/derbyniol gan Iddewon.<br><br>Quran – llyfr sanctaidd Islam.<br><br>Sunnah – arferion a thraddodiadau Islam sy'n dod o eiriau a hanes y proffwyd Muhammmad.<br><br>Halal – bwyd sy'n cael ei ganiatáu gan reolau Islam.<br><br>Haram – bwyd sydd ddim yn cael ei ganiatáu gan reolau Islam. | Diwylliant – y syniadau, arferion a gwerthoedd sy'n perthyn i bobl neu gymuned arbennig.<br><br>Eid al-fitr – yr Ŵyl sy'n dod ag ympryd Ramadan i ben yn y grefydd Islamaidd<br><br>Ramadan – mis sanctaidd yng nghrefydd Islam pryd y bydd Mwslimiaid yn ymprydio<br><br>Medina – un o ddinasoedd mwyaf sanctaidd crefydd Islam – yn Saudi Arabia<br><br>Gŵyl y Peshach – Gŵyl Iddewig sy'n dathlu hanes Moses yn achub yr Iddewon o gaethiwed yr Aifft.<br><br>Pryd y Seder – Y pryd symbolaidd sy'n cael ei fwyta fel rhan o ddathliadau'r Peshach<br><br>Gŵyl y Purim – Gŵyl Iddewig sy'n dathlu hanes y frenhines Esther yn achub yr Iddewon rhag cynllwyn Haman i'w lladd.<br><br>'Hamantaschen' – pocedi neu glustiau Haman – y teisennau triongl sy'n cael eu bwyta adeg y Purim<br><br>Gŵyl y Pasg – Gŵyl Gristnogol sy'n dathlu atgyfodiad Iesu |

| Teitlau | Feganiaeth a Llysieuaeth | Rheolau bwyd Iddewiaeth ac Islam | Bwyd a Dathliadau |
|---|---|---|---|
| | Meddylgarwch - Cynnal ymwybyddiaeth fesul moment o'n meddyliau, teimladau, synwyriadau corfforol, a'r amgylchedd o'n cwmpas, drwy lens dyner, feithringar.<br><br>Athroniaeth / Athronyddol - Theori neu agwedd sy'n gweithredu fel egwyddor arweiniol ar gyfer ymddygiad.<br><br>Rastafari - Crefydd a ddatblygwyd yn Jamaica.<br><br>Ysbrydol - Yn ymwneud â chrefydd neu'r gred grefyddol neu'n ymwneud neu'n effeithio'r enaid dynol neu ysbryd yn hytrach na phethau materol neu gorfforol.<br><br>Stiwardiaeth - Dyletswydd i ofalu am y byd.<br><br>Cynaliadwy - Wedi'i wneud mewn ffordd sy'n achosi ychydig neu dim difrod i'r amgylchedd felly'n gallu parhau am amser hir.<br><br>Fegan- Person sy'n ymatal rhag bwyta cynnyrch anifeiliaid.<br><br>Veganuary - Troi'n Fegan am fis Ionawr.<br><br>Llysieuwr - Person sy'n ymatal rhag bwyta cig. | | Gwasanaeth yr Offeren/Cymun/Swper yr Arglwydd – yr arfer mewn eglwysi a chapel o fwyta bara ac yfed gwin i gofio am groeshoeliad Iesu.<br><br>Hunaniaeth - yr hyn sy’n ein gwneud ni'r hyn ydan ni, un ai fel unigolion, cymuned neu genedl. |
| Geirfa | Eiriolwr<br><br>Ahimsa | Kashrut<br><br>Mitzvot | Eid al-Fitr<br><br>Ramadan |

| Teitlau | Feganiaeth a Llysieuaeth | Rheolau bwyd Iddewiaeth ac Islam | Bwyd a Dathliadau |
|---|---|---|---|
| | Bioamrywiaeth<br><br>Trugaredd<br><br>Cadwraeth<br><br>Euogfarn<br><br>Empathi<br><br>Amgylcheddol<br><br>Moesegol<br><br>Cyfannol<br><br>Cyd-gysylltiad<br><br>Meddylgarwch<br><br>Athroniaeth / Athronyddol<br><br>Rastafari<br><br>Ysbrydol<br><br>Stiwardiaeth<br><br>Cynaliadwy<br><br>Fegan<br><br>Veganuary<br><br>Llysieuwr | Torah<br><br>Kosher<br><br>Trefah<br><br>Parev<br><br>Shechitah<br><br>Shochet<br><br>Quran<br><br>Sunnah<br><br>Halal<br><br>Haram | Islam<br><br>Medina<br><br>Saudi Arabia<br><br>Peshach<br><br>Moses<br><br>Seder<br><br>Aifft<br><br>Caethweision<br><br>Purim<br><br>Esther<br><br>'Hamantaschen'<br><br>Gŵyl y Pasg<br><br>Atgyfodiad<br><br>Offeren/Cymun/Swper yr Arglwydd<br><br>Blwyddyn Newydd Tsieineaidd |

| Teitlau | Feganiaeth a Llysieuaeth | Rheolau bwyd Iddewiaeth ac Islam | Bwyd a Dathliadau |
|---|---|---|---|
| **Tasgau** ymestynnol | ’Nid yw’r hyn yr ydym yn ei fwyta yn gwneud dim gwahaniaeth o ran sut berson ydym.’ Trafodwch gan ystyried dadleuon o blaid ac yn erbyn y gosodiad. | | |
| Tasgau dosbarth | 1. Nid yw feganiaid yn bwyta unrhyw beth yn gysylltiedig ag anifeiliaid, gan gynnwys cig, cynnyrch llaeth ac wyau. Lluniwch fwydlen FEGAN ar gyfer parti.<br>2. Yn aml mae dryswch rhwng Llysieuaeth a Feganiaeth, ond nid ydynt yr un fath! Cwblhewch y diagram Venn isod, gan gynnwys y rhestr o fwydydd yn yr adran gywir. Wyau, Llaeth, Pysgodyn Penfras, Siocled, Llaeth, Eog, Coffi *Latte*, Mêl, Pupur, Caws. | 3. Casglwch wybodaeth am sut y mae cadw cig a llefrith arwahan yn gallu gwneud pethau’n gymhleth mewn cegin Iddewig.<br>4. Paratowch fwydlen tri cwrs sy’n cadw at reolau kashrut.<br>5. Mae Iddewon yn amrywio’n arw o ran cadw kashrut. Beth yw agwedd Iddewon yng Nghymru a thu hwnt. Cofiwch sôn am wahanol draddodiadau a grwpiau Iddewig.<br>6. Mae’n anodd dod o hyd i fwydydd kosher a halal yng Nghymru’, I ba raddau mae hyn yn wir?<br>7. Rydych wedi gwahodd teulu Mwslimaidd i’ch cartref am bryd o fwyd Cymreig. Gwnewch restr o bethau i’w cofio wrth baratoi’r pryd. | 1. Trafodwch a yw'r defnydd o fwyd yn angenrheidiol yn y dathliadau y cyfeirir atynt yn yr erthygl. A fyddai ystyr y dathliadau yn cael ei golli pe na bai bwyd a bwyta yn rhan ohonynt? A yw cynnwys bwyd neu fwydydd arbennig yn rhwystr i rai medru cymryd rhan yn y dathliadau e.e. a fyddai llysieuwr/wraig yn gallu cymryd rhan mewn dathliad sy’n cynnwys bwyta cig?<br>2. I ba raddau mae bwyd yn rhan o’n hunaniaeth? Ysgrifennwch erthygl ar y testun - ‘You are what you eat.’<br>3. Ymchwiliwch ymhellach i arferion y gwyliau y cyfeirir atynt a rhowch grynodeb i weddill y dosbarth ar ffurf adroddiad newyddion.<br>4. Lluniwch flog ar y defnydd o fwyd mewn dathliadau. |
| **Adnoddau pellach** | | | |

| Teitlau | Feganiaeth a Llysieuaeth | Rheolau bwyd Iddewiaeth ac Islam | Bwyd a Dathliadau |
|---|---|---|---|
| | | | |

